

Tasg 3


Rhaglenni realiti

- Mae llawer o raglenni realiti ar y teledu.

Gyda'ch partner chi, gwnewch restr.

- Dewiswch bedair o'r rhaglenni yma ac ysgrifennwch eich barn. Ydych chi'n cofio sut i fynegi barn?

Meddyliwch am batrymau da ac yna ewch i'r adran **Mynegi Barn** i weld oes mwy o syniadau yno.



- Mewn grŵp, trafodwch beth mae'r grŵp yn meddwl o raglenni realiti. Gwnewch nodiadau wrth siarad ac yna cymharwch farn y gwahanol grwpiau.

Geirfa

dewis	(to) choose	wrth siarad	as you speak
-------	-------------	-------------	--------------

4. Mae cylchgrawn i bobl ifanc yn gofyn i bobl beth ydy eu barn am raglenni realiti. Ysgrifennwch i'r cylchgrawn.

Dwedwch:

- pwy ydych chi
- ble rydych chi'n byw
- i ba ysgol rydych chi'n mynd – pa flwyddyn?
- beth rydych chi'n hoffi ar y teledu – pam?
- eich barn chi am raglenni realiti – cofiwch roi rhesymau.